Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Tŷ Cariad

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/06/2018**

## Cyd-destun

Mae Tŷ Cariad yn ysgol annibynnol gofrestredig a agorodd ym mis Hydref 2013. Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn cartref bach i blant ac mae'n cynnig addysg i hyd at bedwar disgybl 11 i 19 oed sy'n preswylio yn y cartref. Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu addysg i ddisgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth.

Ar hyn o bryd, mae dau o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae gan y ddau ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac maent yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2017. Yn dilyn yr arolygiad craidd, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynghori'r ysgol na ddylai gynyddu nifer y disgyblion uwchlaw'r ddau ddisgybl sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae staff yn deall anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda. Maent yn adeiladu cysylltiadau gwaith cadarnhaol gyda disgyblion ac yn rhoi cymorth a sicrwydd gwerthfawr iddynt. Mae hyn yn helpu i greu amgylchedd anogol i ddisgyblion.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn cael eu cynnal a chadw'n dda ac maent yn cynnig amgylchedd addas ar gyfer dysgu.

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael â phryderon pwysig a amlygwyd yn ystod yr arolygiad craidd. Mae wedi ysgrifennu cynlluniau gweithredu manwl ac wedi dechrau eu gweithredu. Er enghraifft, mae wedi gweithredu rhaglen fuddiol o ddatblygiad proffesiynol i wella ansawdd addysgu yn yr ysgol.

### Meysydd i'w datblygu

Nid yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.

Megis dechrau datblygu cwricwlwm sy'n bodloni anghenion a diddordebau ei disgyblion y mae'r ysgol. Er enghraifft, mae'r pennaeth wedi cyflwyno cyfleoedd i un disgybl gael profiad gwaith allanol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw cynlluniau gwaith yn adlewyrchu'r anghenion sydd wedi'u nodi ar gyfer y disgyblion nac yn eu helpu i ddatblygu'r medrau y bydd arnynt eu hangen ar gyfer bywyd yn y dyfodol yn ddigon da.

Mewn llawer o wersi, mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ymarfer a datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol ddull cydlynus o ddatblygu medrau ehangach disgyblion. Yn benodol, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon cyson i ddatblygu medrau datrys problemau disgyblion, eu medrau cymdeithasol a'u medrau annibyniaeth.

Mae'r amrywiaeth o ymyriadau therapiwtig arbenigol sydd ar gael yn yr ysgol i gefnogi anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion yn gyfyngedig. O ganlyniad, mae ymgysylltiad disgyblion â dysgu yn amrywio'n ormodol ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

Mae'r ysgol yn cynnal cofrestr presenoldeb ond nid yw'r wybodaeth sy'n cael ei chofnodi'n rhoi patrwm cywir o'r dysgu a gyflawnodd disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda Llywodraeth Cymru i dderbyn disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth. Nid yw hyn yn adlewyrchu'n gywir yr anghenion sydd wedi'u nodi ar gyfer y disgyblion sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae angen i'r ysgol wneud cais am newid perthnasol i Lywodraeth Cymru i ddiwygio'i manylion cofrestru yn hyn o beth.

Ar y cyfan, mae cynnydd yr ysgol wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd wedi bod yn araf. Felly, nid oes newid i'r argymhellion yn sgil yr ymweliad hwn.

O ystyried y cynnydd araf â'r meysydd sy'n parhau o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, fe all Llywodraeth Cymru ddymuno cynnal y gofyniad presennol, sef na ddylai'r ysgol gynyddu nifer y disgyblion y tu hwnt i'r ddau ddisgybl sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd.

## Argymhellion

A1 Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Mynd i'r afael â'r pryderon diogelu a amlygwyd yn ystod yr arolygiad

A3 Gwella ansawdd yr addysgu

A4 Sefydlu systemau priodol i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

A5 Gwella gwaith sicrhau ansawdd cyffredinol gwaith yr ysgol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael ag ychydig feysydd diffyg cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) a amlygwyd yn ystod arolygiad craidd mis Hydref 2017.

Ar y cyfan, fodd bynnag, mae cynnydd yr ysgol wrth fynd i'r afael â'r meysydd diffyg cydymffurfio wedi bod yn araf, yn enwedig y meysydd yn ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol. Yn ogystal, amlygwyd meysydd pellach o ddiffyg cydymffurfio yn gysylltiedig â'r safon hon a lles, iechyd a diogelwch disgyblion yn ystod yr ymweliad monitro hwn.

**Argymhelliad 2: Mynd i'r afael â'r pryderon diogelu a amlygwyd yn ystod yr arolygiad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â mwyafrif y pryderon iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad craidd. Bellach, mae polisïau cynhwysfawr ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol a phan fydd disgyblion ar ymweliadau addysgol. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae'r polisïau hyn.

O ganlyniad, mae lleiafrif o bryderon a amlygwyd yn ystod yr arolygiad craidd yn parhau. Er enghraifft, nid yw asesiadau risg yr ysgol yn ddigon penodol i anghenion y disgyblion ac nid ydynt yn rhoi strategaethau clir i staff ar y ffordd orau o gefnogi disgyblion.

Mae'r ysgol wedi rhoi un cofnod canolog ar waith ar gyfer staff addysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw hwn yn cynnwys staff gofal o'r cartref plant sy'n rhoi cymorth mewn gwersi.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd yr addysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r pennaeth wedi rhoi nifer o newidiadau buddiol ar waith i wella ansawdd yr addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd i adolygu ymddygiad disgyblion a'u hymgysylltiad â dysgu, ynghyd â hyfforddiant perthnasol i staff ar gynllunio gwersi. Mae arsylwadau gwersi a theithiau dysgu wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu.

Erbyn hyn, mae ymagwedd fwy cyson at gynllunio gwersi nag oedd ar adeg yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon yn mynd i'r afael â thargedau unigol disgyblion yn gyson nac yn sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn cyfateb yn ddigon agos i anghenion a galluoedd disgyblion. Mae hyn yn golygu nad

yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

**Argymhelliad 4: Sefydlu systemau priodol i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r pennaeth wedi gweithredu amrywiaeth o offer asesu perthnasol i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae wedi defnyddio'r rhain yn addas i gwblhau asesiadau gwaelodlin a gosod targedau llythrennedd a rhifedd ar gyfer y ddau ddisgybl. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar waith i adolygu cynnydd disgyblion yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau addysg unigol (CAUau).

Fodd bynnag, nid oes dull cyson ar waith gan yr ysgol i olrhain cynnydd disgyblion yn unol â'r amrywiaeth eang o fedrau y bydd arnynt eu hangen yn eu bywyd yn y dyfodol. Yn ogystal, megis dechrau datblygu y mae systemau i olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gallu darparu gwybodaeth gyfyngedig yn unig am y cynnydd a wna disgyblion.

**Argymhelliad 5: Gwella sicrhau ansawdd cyffredinol gwaith yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r pennaeth wedi cyflwyno mentrau defnyddiol i wella gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi a fframweithiau asesu i ddangos tystiolaeth o gynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r gwaith hwn yn dechrau rhoi gwybodaeth i'r pennaeth er mwyn arfarnu gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi ysgrifennu cynlluniau gweithredu manwl a pherthnasol i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygwyr yn dilyn yr arolygiad craidd diweddar. Mae'r rhain yn nodi'n briodol yr hyn y mae angen ei wneud a'r adnoddau sy'n ofynnol, yn pennu amserlenni priodol ac yn enwi'r unigolion cyfrifol. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu gweithredu y mae'r cynlluniau hyn ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod cynlluniau a chynlluniau gwaith yn ategu'r polisi ar y cwricwlwm, a'u gweithredu'n effeithiol. 1(2)
- Sicrhau bod y deunydd addysgol yn briodol i oedran a gallu'r disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny â datganiad o anghenion addysgol arbennig. 1(2)(b)
- Sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn bodloni gofynion datganiadau'r disgyblion o anghenion addysgol arbennig. 1(2)(e)
- Darparu rhaglen briodol o weithgareddau, i ddisgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol statudol, sy'n briodol i'w hanghenion. 1(2)(h)(i)
- Paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd pan fyddant yn oedolion. 1(2)(j)
- Sicrhau bod gwersi wedi eu cynllunio'n dda, bod dulliau addysgu yn effeithiol a bod gweithgareddau priodol yn cael eu defnyddio. Sicrhau bod amser yn y dosbarth yn cael ei reoli'n ddoeth. 1(3)(c)
- Sicrhau bod athrawon yn dangos dealltwriaeth dda o allu, anghenion a chyraeddiadau blaenorol disgyblion, a bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi. 1(3)(d)
- Sicrhau bod athrawon yn dangos gwybodaeth briodol am y pwnc sy'n cael ei addysgu a dealltwriaeth briodol ohono. 1(3)(e)
- Sicrhau bod athrawon yn darparu addysg sy'n galluogi pob disgybl mewn dosbarth i ddatblygu, gan gynnwys disgyblion â datganiadau a'r rhai y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. 1(5)

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i hybu ymddygiad da ymhlith disgyblion, sy'n disgrifio'r camau sydd i'w cymryd os bydd disgyblion yn camymddwyn. 3(2)d
- Sicrhau lefel foddhaol o ddiogelwch rhag tân, sydd wedi'i gydnabod yn asesiad risgiau'r ysgol o dan Ran II o Reoliadau Rhagofalon Tân (y gweithle) 1997, fel y'u diwygiwyd ym 1999, ac unrhyw adroddiad a roddwyd gan yr Awdurdod Tân (er nad yw'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ymweld). 3(5)
- Sicrhau bod staff ysgol yn cael eu dosbarthu mewn ffordd sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu goruchwylio'n briodol. 3(7)

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Ddiweddaru systemau i sicrhau bod pob gwiriad wedi'i gynnal, cyn cadarnhau bod y staff wedi eu penodi, er mwyn cadarnhau pwy ydynt, a ydynt yn ffit o ran eu hiechyd, hanes eu cyflogaeth flaenorol, tystlythyrau cymeriad a, lle bo'n briodol, cymwysterau a thystlythyrau proffesiynol, a bod gwybodaeth o'r fath wedi'i hystyried wrth benderfynu a fydd eu penodiad yn cael ei gadarnhau ai peidio. 4(c)

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Cariad |
| **Rhif yr ysgol** | 6686019 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 18/04/2018 |
| **Perchennog** | Pat Maddy |
| **Staff** | 1 pennaeth, 1 athro |
| **Nifer y disgyblion** | Dau |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth addysg am 38 wythnos y flwyddyn. Mae disgyblion yn byw yn y cartref plant am 52 wythnos y flwyddyn. |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 10/10/2017 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 02/01/2017 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 08/01/2018 |